# Y model atomig

## Adeiledd atomig

| Term allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Rhif atomig | nifer y protonau mewn niwclews atom o elfen benodol |
| Cyfansoddyn | sylwedd pur wedi'i wneud o ddwy neu ragor o elfennau gwahanol y mae bondiau cemegol yn uno eu hatomau; mae'r atomau mewn cymhareb sefydlog |
| Electron | gronyn is-atomig â gwefr negatif sydd ag ychydig iawn o fàs ac sydd i'w ganfod ym mhlisg electronau/lefelau egni atomau |
| Ffurfwedd/adeiledd electronau | dyma sy'n rhoi nifer yr electronau ym mhob plisgyn/lefel egni o amgylch niwclews atom |
| Plisgyn electronau/lefel egni | yr ardal o amgylch niwclews atom lle mae'r electronau i'w canfod; mae gan bob lefel uchafswm o electronau y mae'n gallu eu dal |
| Elfen | sylwedd pur sydd wedi'i wneud o un math o atom yn unig |
| Isotopau | atomau sydd â'r un nifer o brotonau ond niferoedd gwahanol o niwtronau |
| Rhif màs | cyfanswm nifer y protonau a'r niwtronau mewn niwclews atom o elfen benodol |
| Moleciwl | dau atom neu ragor wedi'u cysylltu gan fondiau cemegol |
| Niwtron | gronyn is-atomig heb wefr sydd â màs cymharol o 1 ac sydd i'w ganfod mewn niwclews atom |
| Niwclews | canol yr atom, sydd â gwefr bositif ac sy'n cynnwys protonau a niwtronau |
| Proton | gronyn is-atomig sydd â gwefr bositif a màs cymharol o 1 ac sydd i'w ganfod mewn niwclews atom |
| Màs atomig cymharol ($A_r$) | màs cyfartalog atom o elfen, gan ystyried y canrannau o isotopau'r elfen sy'n digwydd yn naturiol |
| Gwefr gymharol | gwefr bositif (+) neu negatif (-) gronyn o'i chymharu â gwefr un proton |
| Màs cymharol | màs gronyn o'i gymharu ag $^{1}/_{12}$ o fàs atom $^{12}C$ |
| Gronyn is-atomig | gronyn sy'n llai nag atom |

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Atomau ac ïonau

| Term allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Atom | y gronyn lleiaf posibl o elfen; mae atomau wedi'u gwneud o brotonau, niwtronau ac electronau |
| Ïon | gronyn â gwefr sy'n cael ei ffurfio pan fydd un neu ragor o electronau'n cael eu colli neu eu hennill o atom neu foleciwl |

## Diagramau gronynnau

| Term allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Anelastig | ddim yn hyblyg |
| Grymoedd rhyngfoleciwlaidd | y grymoedd atynnu a gwrthyrru cymharol wan rhwng moleciwlau |
| Egni cinetig | yr egni sydd gan wrthrych oherwydd ei fudiant |
| Gwres cudd | egni sy'n cael ei drosglwyddo i sylwedd neu ohono yn ystod newid yn ei gyflwr ffisegol sy'n digwydd heb newid ei dymheredd |
| Model | cynrychioliad syml o rywbeth neu ffordd o egluro rhywbeth cymhleth |
| Dellten reolaidd | trefniant o atomau neu ïonau sy'n ailadrodd ac yn ffurfio strwythur 3D |

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol